Roedd Lisa yn 16 oed pan ddaeth at Gisda am help. Roedd wedi gadael ysgol a dywedodd Lisa "roeddwn i mewn tipyn go lew o drwbl ar y pryd." Dywedodd ei ffrind wrthi am wasanaethau Gisda a phenderfynodd ddod atynt am help.

Ddaru Gisda rhoi cartref i Lisa yn yr hostel yng Nghaernarfon a derbyniodd lawer o help gan y gweithwyr allweddol ar y pryd. Cafodd Lisa help emosiynol ganddynt er mwyn codi ei hunanhyder a hefyd help gyda cyllido a sgiliau byw.

Ar ôl dwy flynedd yn yr hostel cafod gefnogaeth i gael fflat ei hun yn Maesincla. Penderfynodd Lisa ei bod eisiau ymuno a'r Fyddin a ddaru Gisda ei helpu gyda'r cais a hefyd trwy'r broses recriwtio.

Pan roedd Lisa yn 19, ymunodd hi a'r Fyddin ac mae hi wedi cael gyrfa lwyddiannus ers hynny. Mae hi gyda'r gatrawd magnelau yn Lloegr ar y funud ac mae hi wedi gwasanaethu yn ddiweddar yn Afghanistan.

Dywedodd Lisa " Cyn i mi ddod at Gisda roeddwn yn teithio ar hyd y llwybr anghywir. Ddaru Gisda helpu fi yn ôl ar fy nhraed, i ddod o hyd i waith ac i fyw yn annibynnol. Roeddynt yna bob tro os roeddwn angen eu help a ddaru nhw roi i fyny gyda lot! Dwi'n ddiolchgar iddynt am bob dim a dwi ddim yn gwybod lle fyswn i rŵan heblaw am ei help nhw".

Lisa